# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 16 Ionawr 2014** |
| Amser: | **09:00 – 12:44** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500000_16_01_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Dr Andrew Goodall, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**<br>**Dr Chris Jones, Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Saesneg yn unig)** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammed Asghar. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Gofal heb ei drefnu: Sesiwn dystiolaeth

2.1 Holodd y Pwyllgor Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, ynghylch gofal heb ei drefnu.

2.2 Cytunodd Dr Goodall i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 3 Gofal heb ei drefnu: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Holodd y Pwyllgor Dr Chris Jones o Fwrdd Iechyd Cwm Taf ynghylch gofal heb ei drefnu.

3.2 Cytunodd Dr Jones i anfon ymateb ysgrifenedig yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran gweithredu argymhellion y Grŵp Llywio Cenedlaethol ar ofal y tu allan i oriau.

## 4 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg, a'i nodi.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i ganfod a ellir cyflawni'r gyfundrefn archwilio trawsffiniol heb ddeddfwriaeth.

## 5 Papurau i’w nodi

5.1 Nodwyd y papurau.

5.1 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan David Sissling (9 Rhagfyr 2013)

5.2 Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf (20 Tachwedd 2013)

5.3 Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan (12 Rhagfyr 2013)

5.4 Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (11 Rhagfyr 2013)

5.5 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (13 Rhagfyr 2013)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Cytunwyd ar y cynnig.

## 7 Gofal heb ei drefnu: Trafod y dystiolaeth

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd i ysgrifennu at Gyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr GIG Cymru yn gofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion a godwyd yn y dystiolaeth.

## 8 Fferm Bysgod Penmon: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

8.1 Cafodd y Pwyllgor ddogfen friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru a nododd fod dau adroddiad pellach yn cael eu paratoi ar faterion tebyg yn ymwneud â chyllid grant. Nododd y Pwyllgor hefyd fod disgwyl i Lywodraeth Cymru anfon adroddiad blynyddol ar reoli grantiau i'r Pwyllgor a chytunodd i drefnu sesiwn dystiolaeth pan fydd yr holl wybodaeth hon ar gael.

## 9 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Roedd gwybodaeth bellach am yr ymchwiliad hwn wedi dod i law gan Swyddfa Archwilio Cymru a ystyriwyd gan y Pwyllgor a bydd yr adroddiad yn adlewyrchu hyn. Trefnir amser i drafod adroddiad drafft yn ddiweddarach y mis hwn.

## 10 Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

10.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyr a'r Memorandwm.